Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

## Crynodeb o'r Bil

Tachwedd 2022



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6307**
E-bost: **GarethDavid.Thomas@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Diweddariadau mewn amser real** | **Diweddariadau wythnosol a misol**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2022**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)
## Crynodeb o'r Bil

Tachwedd 2022

**Awdur:**
Gareth Thomas

# Cynnwys

**1. Cefndir y Bil ... 1**

1.1. Partneriaeth gymdeithasol ... 1

1.2. Gwaith teg ... 2

1.3. Caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol ... 2

**2. Yr hyn mae'r Bil yn ei wneud ... 4**

2.1. Crynodeb o ddarpariaethau'r Bil ... 4

2.2. Amcanion y Bil ... 4

2.3. Newidiadau a wnaed o'r Bil drafft ... 6

2.4. Darpariaethau manwl yn y Bil ... 7

**3. Ymateb i'r Bil a materion polisi allweddol a godwyd yn ystod gwaith craffu ... 14**

3.1. Yr ymateb i'r Bil ... 14

3.2. Materion polisi allweddol a godwyd yn ystod y gwaith craffu ... 17

**4. Goblygiadau ariannol y Bil a materion allweddol a godwyd yn ystod y gwaith craffu ... 22**

4.1. Goblygiadau ariannol y Bil ... 22

4.2. Materion ariannol a godwyd yn ystod y gwaith craffu ... 23

# 1. Cefndir y Bil

Cafodd y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) ei gyflwyno i'r Senedd ar 7 Mehefin 2022. Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi craffu ar y Bil.

Cyflwynodd yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, Hannah Blythyn AS, y **Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)** (y Bil) i'r Senedd ar 7 Mehefin 2022.

Mae datblygu trefniadau statudol ar gyfer partneriaeth gymdeithasol drwy'r Bil yn ymrwymiad yn y **Rhaglen Lywodraethu** bresennol, a chafodd ei gynnwys yn y maniffesto a gyflwynwyd gan y Prif Weinidog pan safodd yn etholiad arweinyddiaeth Llafur Cymru yn 2018.

Y bwriad gwreiddiol oedd i'r Bil gael ei gyflwyno yn y Bumed Senedd. Fodd bynnag, oherwydd effaith pandemig COVID-19, **penderfynodd Llywodraeth Cymru** gyhoeddi Bil drafft i ymgynghori yn ei gylch, ar gyfer y weinyddiaeth sydd i ddod ar ôl etholiad Senedd 2021 i ystyried sut i fwrw ymlaen.

## 1.1. Partneriaeth gymdeithasol

Mae'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol **yn nodi** bod partneriaeth gymdeithasol yn cynnwys pob math o drafod, ymgynghori neu gyfnewid gwybodaeth rhwng neu ymhlith cynrychiolwyr llywodraethau, cyflogwyr a gweithwyr ar faterion o ddiddordeb cyffredin sy'n ymwneud â pholisi economaidd a chymdeithasol. Mae'r **Memorandwm Esboniadol i'r Bil** yn cyfeirio at bartneriaeth gymdeithasol fel "ffordd o weithio sy'n anelu at gyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt ar y cyd, er budd pawb sy'n gysylltiedig".

Mae partneriaeth gymdeithasol yn elfen bwysig a hirsefydlog o systemau cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd ledled y byd, yn enwedig yn Ewrop. Mae gwledydd unigol wedi mabwysiadu amrywiaeth o ddulliau o weithredu partneriaeth gymdeithasol, sydd wedi cael eu dylanwadu gan y cyd-destun o fewn y gwledydd unigol hynny. Mewn rhai gwledydd, megis **Awstria** a **Sweden**, gwnaed hyn drwy drefniadau anffurfiol yn hytrach na threfniadau deddfwriaethol. Fodd bynnag, mae enghreifftiau eraill megis lle mae trefniadau partneriaeth

gymdeithasol yn cael eu tanategu gan ddeddfwriaeth, er enghraifft **Denmarc** a'r **Iseldiroedd**.

Mae partneriaeth gymdeithasol yn ddull hirsefydlog yng Nghymru. Mae wedi cael ei defnyddio i ymateb i sefyllfaoedd megis argyfwng ariannol 2008 a phandemig y coronafeirws, yn ogystal â materion parhaus mewn gwasanaethau cyhoeddus datganoledig drwy **Gyngor Partneriaeth y Gweithlu**. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru **o'r farn** nad yw'r strwythurau hyn wedi'u cysylltu na'u cydgysylltu'n ddigonol i gael yr effaith fwyaf posibl, ac mae'n credu y gellir mynd i'r afael â hyn drwy Gyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol.

## 1.2. Gwaith teg

Mae Llywodraeth Cymru **wedi ymrwymo i** wneud Cymru'n genedl gwaith teg. Sefydlodd **Comisiwn Gwaith Teg** i ystyried sut y gallai wneud cynnydd tuag at y nod hwn o fewn ffiniau'r setliad datganoli.

Cyhoeddodd y Comisiwn Gwaith Teg ei **adroddiad yn 2019**, gan wneud 48 o argymhellion. Un o'r rhain oedd y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu trefniadau deddfwriaethol i ymgorffori partneriaeth gymdeithasol yn fwy cadarn, ac y dylai hyn lywio'r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth ar bartneriaeth gymdeithasol.

Gwnaeth **y Comisiwn Gwaith Teg** hefyd greu diffiniad o waith teg, lle mae:

> …gweithwyr yn cael eu gwobrwyo, yn cael eu clywed ac yn cael eu cynrychioli'n deg, bod ganddynt sicrwydd a'u bod yn gallu dod yn eu blaen mewn amgylchedd iach a chynhwysol, lle mae hawliau'n cael eu parchu.

## 1.3. Caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol

Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru **yn gwario tua £7 biliwn y flwyddyn** ar gaffael nwyddau a gwasanaethau, ac mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol **wedi dweud bod caffael yn** "un o'r ysgogiadau pwysicaf a mwyaf grymus y gall Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio i helpu i gyflawni ei dyhead o ran ei rhaglen lywodraethu ar gyfer Cymru fwy llewyrchus, fwy cyfartal a gwyrddach". Nod y Bil hwn yw sicrhau caffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol. Yn y Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth Cymru yn diffinio hyn fel y gofyniad bod pobl sy'n caffael gwasanaethau cyhoeddus yn "meddwl am sut y gallant hefyd sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach" a gwneud llesiant yn ystyriaeth allweddol.

Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o bolisïau presennol sydd â'r nod o ymdrin â

chaffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol:

- Cafodd y **pecyn cymorth Buddion Cymunedol** ei gyhoeddi yn 2010, ac roedd yn ddull allweddol i Lywodraeth Cymru greu swyddi a hyfforddiant drwy gaffael. Mae'n ffordd o ymgorffori gofynion cymdeithasol mewn caffael er budd y cymunedau yn yr ardaloedd lle mae contractau yn cael eu darparu.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio nifer o **Nodiadau Polisi Caffael Cymru** sy'n cwmpasu gwaith teg.
- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y **Cod Ymarfer gwirfoddol ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi** yn 2017, a'i ddiweddaru yn 2021. Mae'n cynnwys 12 ymrwymiad ar feysydd megis hyfforddi staff, ystyried talu'r Cyflog Byw 'Gwirioneddol' i staff, a sicrhau nad yw arferion cyflogaeth anghyfreithlon yn cael eu canfod o fewn cadwyni cyflenwi.
- Mae cryfhau'r economi sylfaenol yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ac mae tudalen 29 o'r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod "ymrwymiad cynyddol i ddefnyddio gwariant y sector cyhoeddus i gefnogi busnesau a chadwyni cyflenwi yng Nghymru".

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil yn nodi hefyd, er bod Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod wedi gwneud cynnydd da wrth ddefnyddio'r dull hwn, "mae nifer o adolygiadau wedi dangos y gellid gwneud gwelliannau". Felly, mae'n dweud ei bod wedi dewis defnyddio deddfwriaeth i geisio gwneud mwy o gynnydd.

**Mae deddfwriaeth caffael o fannau eraill yn y DU yn berthnasol i'r Bil hwn**. Mae'r Bil yn rhyngweithio â **Bil Caffael** Llywodraeth y DU, a gyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi ar 11 Mai 2022. Ym mis **Awst 2021** dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol y byddai Llywodraeth Cymru yn defnyddio deddfwriaeth Llywodraeth y DU "i ddiwygio'r prosesau sylfaenol sy'n sail i gaffael". Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cael gwarantau ysgrifenedig gan Lywodraeth y DU na fyddai mabwysiadu'r dull hwn yn effeithio ar ei gallu i gyflwyno'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus.

Mae Bil Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yn mynd drwy **broses cydsyniad deddfwriaethol yn y Senedd**. Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o faterion sydd heb eu datrys y byddai'n hoffi iddynt gael eu datrys cyn argymell cydsyniad.

Mae dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â'r rhan hon o'r Bil wedi cael ei ddylanwadu gan **Ddeddf Diwygio Caffael (yr Alban) 2014**, ac mae ganddo nifer o elfennau tebyg i'r ddeddfwriaeth hon. Mae'r rhain yn cynnwys dyletswydd caffael cynaliadwy, gofynion i awdurdodau cyhoeddus lunio strategaethau caffael, a gofynion adrodd blynyddol.

# 2. Yr hyn mae'r Bil yn ei wneud

Nod y Bil yw datblygu fframwaith i wella llesiant pobl drwy wella gwasanaethau cyhoeddus drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol.

## 2.1. Crynodeb o ddarpariaethau'r Bil

Mae tudalen 7 o'r **Memorandwm Esboniadol** i'r Bil yn nodi ei fod yn gwneud darpariaeth ar gyfer:

- sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol;
- dyletswydd statudol cymdeithasol i'w gosod ar rai cyrff cyhoeddus sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt geisio consenswś neu gyfaddawd gyda'u hundebau llafur cydnabyddedig, neu (os nad oes undeb llafur cydnabyddedig) gynrychiolwyr eraill eu staff, wrth bennu eu hamcanion llesiant a chyflawni'r amcanion hynny o dan adran 3(2) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015;
- dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â phartneriaid cymdeithasol, cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr drwy'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol wrth gyflawni eu hamcanion llesiant o dan adran 3(2)(b) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015;
- diwygio adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy roi 'gwaith teg' yn lle 'gwaith addas' yn y nod "Cymru lewyrchus" presennol;
- dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus penodol i ystyried defnyddio prosesau caffael cyhoeddus sy'n gyfrifol o safbwynt cymdeithasol, i osod amcanion mewn perthynas â nodau llesiant, ac i gyhoeddi strategaeth gaffael;
- rhai cyrff cyhoeddus i gyflawni dyletswyddau rheoli contractau i sicrhau yr eir ar drywydd canlyniadau sy'n gymdeithasol gyfrifol drwy gadwyni cyflenwi; a
- dyletswyddau adrodd i'w gosod ar gyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol a'r ddyletswydd caffael.

## 2.2. Amcanion y Bil

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer y gwahanol rannau o'r Bil.

Mae tudalennau 17-18 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi **uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol**. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu y "bydd y Cyngor yn darparu ar gyfer gweithwyr a chyflogwyr yn cymryd rhan fwy ac yn cyfrannu mwy at y gwaith o lunio polisïau, i lywio agenda fwy uchelgeisiol a chefnogi penderfyniadau mwy cadarn er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bobl Cymru."

Mae tudalen 22 o'r Memorandwm Esboniadol yn amlinellu **nodau'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol**. Bwriad y rhan hon o'r Bil yw "hyrwyddo cydweithredu, cryfhau polisïau a gwella canlyniadau, drwy ddeialog rhwng partneriaid cymdeithasol, a hynny drwy bartneriaeth gymdeithasol".

Mae tudalen 24 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai bwriad y **ddarpariaeth gwaith teg** yw "sicrhau gwaith teg fel rhan o'r disgrifiad o'r nod llesiant 'Cymru lewyrchus', i'w ddilyn gan gyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru wrth ymgymryd â datblygu cynaliadwy o dan y Ddeddf Llesiant."

Mae tudalen 27 o'r Memorandwm Esboniadol yn manylu ar nodau y rhannau o'r Bil sy'n cwmpasu **caffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol.** Sef:

- ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ddangos eu bod wedi ymrwymo i agenda polisi caffael Llywodraeth Cymru, er mwyn cefnogi twf economaidd, cynyddu cydraddoldeb a sicrhau cadwyni cyflenwi cadarn a gwasanaethau cyhoeddus sy'n gynaliadwy yn yr hirdymor;
- rhoi eglurder ynghylch y nifer fawr o ddisgwyliadau polisi sy'n gysylltiedig â gweithgareddau caffael;
- sicrhau bod y canlyniadau cymdeithasol gyfrifol sy'n gysylltiedig â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ganolog i strategaethau a phrosesau caffael;
- gwella'r cysylltiad rhwng prosesau caffael a sicrhau canlyniadau drwy reoli contractau;
- gwella tryloywder drwy gofnodi metrigau a chyhoeddi adroddiadau rheolaidd yn rhannu arferion da a meysydd lle mae angen gwella;
- sicrhau bod sefydliadau yn derbyn y cyfrifoldeb am sicrhau bod amodau contract yn cael eu cynnal drwy gadwyni cyflenwi cyfan, yn enwedig mewn contractau adeiladu mawr.

## 2.3. Newidiadau a wnaed o'r Bil drafft

**Cyhoeddodd** Llywodraeth Cymru Fil drafft a dogfen ymgynghori ym mis Chwefror 2021, a chyhoeddodd **grynodeb o'r ymatebion** ym mis Gorffennaf 2021

Mae'r Bil a gyflwynwyd i'r Senedd yn gwneud nifer o newidiadau i'r Bil drafft a gyhoeddwyd yn 2021:

### Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (CPG)

- Mae'r Bil drafft wedi'i ddiwygio fel y bydd gan y CPG swyddogaeth ychwanegol i ddarparu gwybodaeth a chyngor i Weinidogion ar gyrff cyhoeddus sy'n dilyn nod llesiant "Cymru lewyrchus" Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
- Mae'r Bil a gyflwynir i'r Senedd yn ei gwneud yn ofynnol i gynrychiolwyr gweithwyr a benodir gan y Prif Weinidog gael eu henwebu gan TUC Cymru, ac nid oedd hynny'n wir yn y Bil drafft;
- Mae'r gofyniad yn y Bil drafft i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r holl wybodaeth a chyngor a dderbyniwyd gan y CPG wedi'i ddileu. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi y gall Gweinidogion ddewis cyhoeddi gwybodaeth neu gyngor yn y mwyafrif o achosion, ond efallai y bydd adegau pan na fyddai'n briodol cyhoeddi gwybodaeth a dderbyniwyd gan y CPG.

### Dyletswydd partneriaeth gymdeithasol

- Mae geiriad y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol wedi'i diwygio fel ei bod yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus o fewn cwmpas y Bil geisio consensws neu gyfaddawdu â'u hundebau llafur cydnabyddedig (neu pan fo'n briodol) aelodau eraill o'u staff, wrth osod a chyflawni eu hamcanion llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015; ac
- Mae dyletswydd ar wahân wedi'i datblygu ar gyfer Gweinidogion Cymru o fewn y rhan hon o'r Bil "yn dilyn ymgynghoriad mewnol â swyddogion mewn meysydd polisi eraill".

### Gwaith teg

- Nid yw'r adran o'r Bil drafft ar waith teg yn ymddangos yn y Bil fel y'i cyflwynwyd. Byddai'r Bil drafft wedi creu Nod Gwaith Teg. Byddai hefyd wedi gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod a chyhoeddi amcanion gwaith teg, cymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r rhain, a gosod adroddiad blynyddol gerbron y Senedd ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni amcanion.
- Cafodd ei ddisodli gan adran 20 o'r Bil, sy'n diwygio'r nod "Cymru Lewyrchus"

yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i roi 'gwaith teg' yn lle 'gwaith addas'. Mae'r dull a fabwysiadwyd yn gosod gwaith teg o fewn dull ehangach Llywodraeth Cymru o ymdrin â nodau llesiant.

**Caffael Cyhoeddus Cymdeithasol Gyfrifol**

- Mae'r ddyletswydd gyffredinol ar Gaffael Cyhoeddus sy'n Gymdeithasol Gyfrifol bellach yn cyfeirio at Nodau Llesiant cenedlaethol yn unig, ac nid Nod Gwaith Teg ychwanegol nad yw wedi'i gynnwys yn y Bil fel y'i cyflwynwyd.
- Nid yw cyrff sy'n ddarostyngedig i'r Dyletswyddau Caffael Cyhoeddus sy'n Gymdeithasol Gyfrifol yn cynnwys sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach na Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Mae'r rhestrau o gyrff sydd wedi'u cynnwys yn nyletswyddau Cymal y Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol bellach yr un fath â'r cyrff sydd wedi'u cynnwys yn y dyletswyddau caffael cyhoeddus eraill sy'n gymdeithasol gyfrifol;
- Mae proses ddiwygiedig ar gyfer adrodd am eithriadau, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion gyhoeddi canlyniad eu hystyriaethau os bydd awdurdod contractio yn eu hysbysu nad ydynt yn bwriadu cynnwys cymal gweithiau cyhoeddus cymdeithasol neu gymal gweithlu cyhoeddus cymdeithasol o fewn contract caffael; ac
- Mae'r trothwy o £2 miliwn ar gyfer diffinio "caffaeliadau rhagnodedig" sy'n gysylltiedig ag adeiladu wedi cael ei ddiwygio i gynnwys TAW.

## 2.4. Darpariaethau manwl yn y Bil

### Rhan 1 - Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol

#### Adrannau 1 i 6: Sefydliad a diben

Mae adran 1 yn sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cymru ("CPG") ac yn disgrifio ei swyddogaeth graidd ynghyd â'r dibenion y caiff arfer y swyddogaeth honno ar eu cyfer.

Yn ôl tudalen 111 o'r Memorandwm Esboniadol, swyddogaeth graidd y CPG yw:

> "darparu gwybodaeth a chyngor i Weinidogion Cymru mewn perthynas â materion penodol. Mae'r swyddogaeth hon yn ehangach na chynghori Gweinidogion Cymru yn unig a gallai gynnwys creu neu ddarparu, ymhlith pethau eraill, ystadegau, crynodebau ffeithiol, copïau o ddogfennau (boed y rheini ar gael i'r cyhoedd ai peidio) ac yn y blaen. Nid oes unrhyw gyfyngiad penodol ar y math o wybodaeth neu gyngor y gall y CPG ei darparu neu ei ddarparu."

Mae adran 2 yn nodi y bydd aelodaeth y CPG yn cynnwys tri math o aelod – aelodau o Lywodraeth Cymru (sy'n cynnwys y Prif Weinidog ac unrhyw un o Weinidogion Cymru neu Ddirprwy Weinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol neu unrhyw aelod o staff Llywodraeth Cymru), naw cynrychiolydd cyflogwyr yng Nghymru a naw cynrychiolydd gweithwyr yng Nghymru.

Mae adrannau 3 a 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch pwy y gall y Prif Weinidog ei benodi yn gynrychiolwyr cyflogwyr a gweithwyr.

Mae adran 5 yn ymdrin ag enwebu aelodau penodedig. Mae gwahaniaeth yn y dull o ymdrin â'r weithdrefn enwebu/penodi – gyda chynrychiolwyr cyflogwyr, nid oes gorfodaeth ar y Prif Weinidog i benodi person sydd wedi'i enwebu, ond gyda chynrychiolwyr gweithwyr, ni chaiff y Prif Weinidog ond penodi cynrychiolwyr gweithwyr a enwebwyd gan TUC Cymru.

Mae adran 6 yn darparu y penodir cynrychiolwyr cyflogwyr neu gynrychiolwyr gweithwyr am dair blynedd oni bai bod y Prif Weinidog yn terfynu eu penodiad neu eu bod yn ymddiswyddo drwy hysbysu'r Prif Weinidog.

### Adrannau 7 i 13: Gweithredu a gweinyddu

Mae adrannau 7 i 12 yn gwneud darpariaethau ynghylch gweithredu a gweinyddu'r CPG. Maent yn pennu gweithdrefnau penodol sy'n ymwneud â gweithredu'r CPG, sy'n cynnwys y gofyniad ei fod yn cyfarfod o leiaf 3 gwaith ym mhob cyfnod o 12 mis a bod yn rhaid i'r GPG gael ei gadeirio, pan fo'n bosibl, gan y Prif Weinidog. Rhaid i weithdrefnau eraill, fel y cworwm ar gyfer cyfarfodydd CPG, gael eu pennu gan Weinidogion Cymru.

Mae adran 13 yn rhoi pwerau atodol i'r CPG mewn perthynas â gwella effeithiolrwydd ei swyddogaethau neu swyddogaethau is-grŵp.

### Adran 14: Dehongli

Mae adran 14 yn nodi sut y dylid dehongli nifer o dermau a ddefnyddir yn rhan 1 o'r Bil.

## Rhan 2 - Partneriaeth Gymdeithasol A Datblygu Cynaliadwy

### Adrannau 15 i 20: Trosolwg o Ran 2 a dehongli

Mae adran 15 yn crynhoi'r cysylltiadau a ganlyn rhwng Rhan 2 o'r Bil a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015:

a. Sut mae dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol yn gysylltiedig â'r ddyletswydd llesiant yn adran 3 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015;

b. Sut mae'r Bil yn diwygio'r nod llesiant "Cymru lewyrchus" yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015; a

c. Sut mae gan y termau "datblygu cynaliadwy" a "corff cyhoeddus" a ddefnyddir yn Rhan 2 o'r Bil yr un ystyr ag yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Mae adran 16 yn gosod 'dyletswydd partneriaeth gymdeithasol' ar bob corff cyhoeddus penodedig, i'r graddau y bo'n rhesymol, i 'geisio consensws neu gyfaddawd' gyda'i undebau llafur cydnabyddedig yn bennaf wrth gymryd camau penodol. Pan nad oes gan gorff cyhoeddus undeb llafur cydnabyddedig, rhaid iddo 'geisio consensws neu gyfaddawd' gyda chynrychiolwyr eraill ei staff.

Mae adran 17 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r CPG pan fônt yn gwneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch y camau rhesymol y mae angen iddynt eu cymryd i gyflawni eu hamcanion llesiant yn unol ag adran 3(2)(b) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Nid yw'n gymwys i'r penderfyniadau y mae Gweinidogion Cymru yn eu gwneud o ddydd i ddydd.

Mae adran 18 yn darparu bod rhaid i bob corff cyhoeddus lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n nodi'r hyn y mae wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol a osodir gan adran 16. Os na chytunir ar yr adroddiad gydag undeb llafur cydnabyddedig y corff cyhoeddus neu (lle nad oes undeb llafur cydnabyddedig) aelodau cynrychiadol eraill o staff, rhaid iddo gynnwys datganiad yn nodi'r rhesymau dros yr anghytundeb.

Mae adran 19 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n nodi'r hyn y maent wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol a osodir gan adran 17. Os na chytunir ar yr adroddiad gyda'r CPG, rhaid iddo gynnwys datganiad yn nodi'r rhesymau dros yr anghytundeb.

Mae adran 20 yn diwygio'r disgrifiad o nod llesiant "Cymru lewyrchus" yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 drwy roi "waith teg" yn lle "waith addas". Bydd y diwygiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried gwaith teg wrth osod amcanion sydd wedi eu cynllunio i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl ganddynt tuag at gyflawni nod llesiant "Cymru lewyrchus", ac wrth gymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.

## Rhan 3 - Caffael Cyhoeddus Cymdeithasol Gyfrifol

### Adrannau 21 i 23: Cysyniadau allweddol

Mae Rhan 3 o'r Bil yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â chaffael sy'n gymdeithasol gyfrifol. Mae adrannau 21 i 23 yn nodi cysyniadau a diffiniadau allweddol.

### Adrannau 24 i 26: Y ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol

Mae adran 24 yn nodi dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau contractio (h.y. y rhai a restrir yn Atodlen 1 i'r Bil) sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt geisio gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd drwy gynnal caffael cyhoeddus mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol.

Mae'r adran hon yn cyflwyno categori o gaffael cyhoeddus mewn cysylltiad â "contractau rhagnodedig", sy'n perthyn i dri chategori:

i. Contractau adeiladu mawr (a ddiffinnir yn adran 25);
ii. Contractau allanoli gwasanaethau (a ddiffinnir yn adran 26);
iii. Unrhyw gontract cyhoeddus arall a ddisgrifir mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru.

Mae adran 25 yn cyflwyno'r camau penodol y mae'n rhaid i awdurdod contractio eu cymryd mewn perthynas â "contract adeiladu mawr", yn benodol bod yn rhaid cynnwys "cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol" (fel y'u cyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 27), ac ystyried a ddylid cynnwys cymalau o'r fath yn y contract penodol sy'n cael ei ddyfarnu. Os penderfynir y dylai contract gynnwys cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol, rhaid i'r awdurdod contractio gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y gellir gweithredu cymalau o'r fath a'u bod yn cael eu cyflawni.

Mae adran 26 yn nodi'r camau penodol y mae'n rhaid i awdurdod contractio eu cymryd mewn perthynas â "chontractau allanoli gwasanaethau". Yn benodol y mae'n rhaid iddo ystyried cynnwys "cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol" (a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru fel rhan o'r cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu ehangach) mewn unrhyw gontract gwasanaethau allanoli perthnasol y mae'n bwriadu ei ddyfarnu. Os penderfynir y dylai contract gynnwys cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol, rhaid i'r awdurdod contractio gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y gellir gweithredu cymalau o'r fath a'u bod yn cael eu cyflawni.

## Adrannau 27 i 31: Cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol

Mae adran 27 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cymalau enghreifftiol ar gyfer contractau adeiladu mawr ("cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol") a luniwyd i sicrhau gwelliannau i lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Bydd y cymalau hyn yn ymwneud â phob un o'r gwelliannau a restrir o dan y categorïau a nodir yn y Tabl yn adran 27.

Mae adran 28 yn darparu, mewn perthynas â phrif gontract adeiladu, yn ogystal â'r camau angenrheidiol i'w cymryd yn unol ag adran 25, mae'r hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y rhwymedigaethau'n cael eu gweithredu pan fo contractiwr yn ymrwymo i is-gontract.

Mae adran 29 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod contractio hysbysu Gweinidogion Cymru os nad yw, mewn perthynas â chontract adeiladu mawr, wedi cynnwys y cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol yn y contract (hyd yn oed os yw wedi cymryd camau rhesymol i geisio eu cynnwys).

Mae adran 30 yn nodi'r camau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu cymryd unwaith y byddant wedi cael hysbysiad gan awdurdod contractio o dan yr amodau a nodir yn adran 29.

Mae adran 31 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad os, mewn perthynas â chontract adeiladu mawr y maent yn rhan ohono:

i. nad ydynt wedi cynnwys y cymalau gwaith cymdeithasol cyhoeddus yn y contract (hyd yn oed os ydynt wedi cymryd camau rhesymol i geisio eu cynnwys),
ii. nad ydynt wedi rhoi proses ar waith i reoli gweithrediad y rhwymedigaethau a nodir yn y cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol, neu
iii. maent wedi methu â throsglwyddo'r rhwymedigaeth ofynnol drwy gadwyni cyflenwi drwy is-gontractau.

## Adrannau 32 i 37: Cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol a chod ymarfer allanoli gwasanaethau cyhoeddus

Mae adran 32 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ymarfer ("y cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu") ynghylch materion cyflogaeth a phensiynau sy'n ymwneud ag allanoli contractau gwasanaethau. Bydd y "cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol" yn cael eu cynnwys fel rhan o'r cod hwnnw.

Mae adran 33 yn darparu bod rhaid i'r cod a gyhoeddir o dan adran 32 gynnwys cymalau contract enghreifftiol, sydd wedi'u cynllunio i sicrhau y gall aelodau o staff a gyflogir i ddarparu gwasanaeth, os dymunant, gael eu trosglwyddo i'r cyflogwr newydd a fydd wedi'i gontractio i ddarparu'r gwasanaeth. Bydd y cymalau hyn yn sicrhau bod telerau ac amodau eu cyflogaeth a'u trefniadau pensiwn wedi eu diogelu hefyd.

Mae adran 34 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y rhwymedigaethau yn y cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yn cael eu gweithredu pan fo'r contractiwr yn ymrwymo i is-gontract gydag unrhyw weithredwr economaidd arall.

Mae adran 35 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod contractio hysbysu Gweinidogion Cymru os nad yw wedi cynnwys, neu os nad yw'n bwriadu cynnwys, cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yn y contract, neu os nad oes proses ar waith i sicrhau bod rhwymedigaethau mewn cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yn cael eu gweithredu pan fo'r contract wedi ei is-gontractio.

Mae adran 36 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, pan fo hysbysiad yn cael ei roi iddynt, ystyried a ydynt yn fodlon ar y rhesymau a roddwyd. Os nad ydynt yn fodlon, cânt gyfarwyddo'r awdurdod contractio i gymryd pob cam rhesymol i fynd i'r afael â'r sefyllfa.

Mae adran 37 yn ymwneud â chontractau a osodir gan Weinidogion Cymru. Ar gyfer contractau o'r fath, rhaid i ddatganiad gael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol gan Weinidogion Cymru os nad ydynt yn bwriadu cynnwys cymalau gweithlu cymdeithasol cyhoeddus mewn contract allanoli gwasanaethau.

## Adran 38: Strategaeth gaffael

Mae adran 38 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio baratoi a chyhoeddi "strategaeth gaffael" sy'n nodi sut y mae'r awdurdod yn bwriadu cyflawni caffael cyhoeddus mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol, a sut y mae'n bwriadu cyflawni ei amcanion caffael sy'n gymdeithasol gyfrifol pan fydd yn cyflawni caffael cyhoeddus.

## Adrannau 39 i 42: Adrodd ac atebolrwydd

Mae adran 39 yn gosod gofyniad ar awdurdodau contractio sydd wedi dyfarnu unrhyw gontractau rhagnodedig yn ystod blwyddyn ariannol i gyhoeddi adroddiad caffael cymdeithasol gyfrifol cyn gynted â phosibl ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

Mae adran 40 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod contractio gynnal a chyhoeddi cofrestr gontractau yn cynnwys gwybodaeth benodol (a fanylir yn yr adran) am 'gontractau cofrestradwy' sydd o ddisgrifiad a ragnodwyd gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau.

Mae adran 41 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i ymchwilio i sut y mae awdurdod contractio yn cynnal caffael cyhoeddus. Gallai ymchwiliad o'r fath fod mewn perthynas â gwaith caffael penodol neu weithgarwch caffael yn fwy cyffredinol.

Mae adran 42 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru, a hynny cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd blwyddyn ariannol. Rhaid i'r adroddiad grynhoi'r adroddiadau caffael blynyddol a gyhoeddir o dan adran 39 ac unrhyw ymchwiliadau a gynhaliwyd o dan adran 41. Rhaid i'r adroddiadau gael eu cyhoeddi a'u gosod gerbron y Senedd.

### Adrannau 43 i 45: Cyffredinol

Mae adran 43 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar weithredu Rhan 3 o'r Bil, ac mae'n nodi pynciau penodol y caiff y canllawiau wneud darpariaeth yn eu cylch.

Mae adran 44 yn pennu gweithdrefnau perthnasol y Senedd ar gyfer rheoliadau a wneir o dan y Bil. Bydd rheoliadau a wneir o dan adran 22(4), 24(8)(c) neu 25(3) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn "cadarnhaol drafft", tra bydd rheoliadau a wneir o dan unrhyw adran arall o'r Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn "negyddol".

## Rhan 4 - Darpariaethau Terfynol

### Adrannau 46 i 49

Mae Rhan 4 o'r Bil yn cynnwys mân ddiwygiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, yn darparu bod y Bil yn dod i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru ac yn nodi teitl byr y Bil.

## Atodlenni 1 a 2

Mae Atodlen 1 yn rhestru'r cyrff, y deiliaid swyddi a phersonau eraill a ddiffinnir fel "awdurdodau contractio" at ddibenion y Bil.

Mae Atodlen 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch adolygu ac adolygu "amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol".

# 3. Ymateb i'r Bil a materion polisi allweddol a godwyd yn ystod y gwaith craffu

Roedd llawer o'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod gwaith craffu Cyfnod 1 yn cefnogi'r Bil, er bod nifer o welliannau wedi'u hawgrymu. Mae'r adran hon yn trafod y materion allweddol a godwyd mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

## 3.1. Yr ymateb i'r Bil

### Undebau llafur

**Croesawodd** Cyngres Undebau Llafur Cymru gyflwyno'r Bil, gan ddweud ei fod yn gam nodedig. Fe wnaeth Shavanah Taj o TUC Cymru ddweud:

> The Bill lays the foundations for workers to be at the table when key decisions are being taken about the communities they live and work in. It's a major step and we look forward to working with Welsh Government to make this a reality across Wales.

Mynegodd undebau unigol sy'n gysylltiedig â'r TUC gefnogaeth i'r Bil hefyd. **Dywedodd** Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS) fod manteision i'r dull hwn, gan y bydd gwasanaethau cyhoeddus yn elwa ar y ffaith eu bod yn gallu manteisio ar arbenigedd y rhai sy'n eu cyflawni. **Dywedodd** y GMB fod angen gwneud ymdrech ledled Cymru i fynd i'r afael â chyflogau isel a gwaith heb sicrwydd, a bod dull partneriaeth gymdeithasol statudol y Bil yn golygu bod llwyfan cyson i drafod y materion hyn.

Roedd undebau llafur nad ydynt yn gysylltiedig â'r TUC yn cefnogi elfennau partneriaeth gymdeithasol y Bil, er gyda rhai pryderon a fydd yn cael eu trafod yn ddiweddarach yn y papur hwn. **Dywedodd** yr Athro Philip Banfield o Gymdeithas Feddygol Prydain (BMA) Cymru:

> "Superficially, there is a question as to whether this has to be enshrined in legislation, but, unfortunately, where we see things not enshrined in legislation, they rarely get done".

**Croesawodd** Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru y cynigion i sefydlu'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, er bod ganddo bryderon, yn debyg i'r BMA, ynghylch rôl undebau llafur nad ydynt yn gysylltiedig â'r aelodaeth.

Nid yw pawb yn y mudiad undebau llafur wedi ymateb yn ffafriol i'r Bil. Mae'r ymgyrchydd undebau llafur Morgan Rhys Powell **yn honni mai** cyflogwyr sy'n pennu'r telerau ymgysylltu mewn partneriaeth gymdeithasol, a bod y dull hwn yn arwain at gyfaddawdu yn hytrach na sicrhau canlyniadau gwell i weithwyr. Mae TUC Cymru wedi **ymateb i'r pwyntiau hyn.**

## Sefydliadau'r sector cyhoeddus

**Roedd sefydliadau'r sector cyhoeddus a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar y cyfan yn cefnogi'r Bil.** **Dywedodd** Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) y bydd y Bil yn dod â chysondeb ar draws sefydliadau, a bydd yn helpu i ledaenu arferion da presennol draws cyrff cyhoeddus. **Nododd** Dirprwy Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fod cyrff cyhoeddus yn canolbwyntio'n bennaf ar gyflogaeth a thwf economaidd yn hytrach na gwaith teg pan fyddant yn datblygu amcanion llesiant, ac felly mae angen gosod partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg ar sylfaen ddeddfwriaethol o fewn ffiniau'r setliad datganoli. **Dywedodd** cyflogwyr GIG Cymru y byddai gosod partneriaeth gymdeithasol ar sail statudol yn gatalydd ar gyfer symud materion yn y gweithle ymlaen mewn ffordd gydlynol na fyddai'n digwydd heb ddeddfwriaeth.

Fodd bynnag, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam **o'r farn** y byddai gan y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol o fewn y Bil oblygiadau negyddol posibl, byddai'n dyrchafu barn undebau llafur uwchben eraill, a byddai'n anodd i awdurdodau lleol gyfarfod mewn rhai amgylchiadau.

## Sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau

**Roedd gan sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau farn gymysg ynghylch y Bil.** **Dywedodd** Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI) Cymru y bydd y Bil yn 'cadarnhau'r hyn sydd yma'n barod', ac y gall partneriaeth gymdeithasol sicrhau canlyniadau cadarnhaol fel y **Fforwm Iechyd a Diogelwch** a sefydlwyd yn ystod y pandemig.

Fodd bynnag, roedd yn well gan sefydliadau busnes eraill elfennau caffael y Bil na'r rhai ar bartneriaeth gymdeithasol, er eu bod yn cydnabod gwerth y trefniadau partneriaeth gymdeithasol a oedd ar waith yn ystod y pandemig. **Dywedodd** Sefydliad y Cyfarwyddwyr Cymru fod ei aelodau'n cefnogi agweddau caffael y Bil, ond roeddent yn meddwl tybed pam yr oedd caffael a phartneriaeth gymdeithasol wedi cael eu cynnwys yn yr un Bil. **Holodd** Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB) Cymru a oes angen deddfwriaeth a dywedodd nad oes gan ei aelodau ddealltwriaeth arbennig o dda o bartneriaeth gymdeithasol. Nid yw'n credu bod

dull statudol o ymdrin â phartneriaeth gymdeithasol yn broblem, ond mae'n cwestiynu a fydd strwythur ffurfiol yn caniatáu digon o hyblygrwydd i fynd i'r afael â materion sy'n codi.

### Sefydliadau'r trydydd sector

**Roedd gan sefydliadau'r trydydd sector a roddodd tystiolaeth i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol farn gymysg ynglŷn â'r Bil.** **Croesawodd** Sefydliad Bevan yr egwyddor o osod partneriaeth gymdeithasol mewn statud, ond mae'n ystyried bod angen i ffocws y Bil ar brosesau gael ei ategu gan fesurau anneddfwriaethol ehangach i wella telerau ac amodau'r gweithle. **Dywedodd** Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ei fod yn gadarnhaol ynglŷn â'r Bil hwn, ac mae'n croesawu'r nod o weithio mewn partneriaeth, ond mae ganddo bryderon am wahanol agweddau ar y Bil.

### Arbenigwyr Caffael

**Croesawodd** Ed Evans o Gymdeithas Contractwyr Peirianneg Sifil (CECA) Cymru agweddau caffael y Bil, gan ddweud y bu nifer o ddiffygion o ran caffael cyhoeddus, yn enwedig o ran rheoli contractau. Mae o'r farn y bydd y Bil yn datblygu mecanweithiau atebolrwydd a chyfrifoldeb i sicrhau bod mwy o werth cymdeithasol yn cael ei ddarparu drwy gaffael.

**Cwestiynodd** Liz Lucas o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yr angen am Fil, gan ddweud y gellir cyflawni llawer o'i nodau o dan y ddeddfwriaeth bresennol. Fodd bynnag, dywedodd hefyd fod y Bil yn addas i'r diben, oherwydd bod ganddo'r potensial i newid diwylliant caffael, gan symud i ffwrdd o'r gost isaf i gaffael a ysgogir gan ganlyniadau.

### Academyddion

**Nododd** yr Athro Alan Felstead fod llawer i'w edmygu yn y Bil a gyflwynwyd yn y ffordd y mae'n cryfhau'r egwyddorion cyffredinol o ran gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol ac yn hyrwyddo penderfyniadau cydsyniol sy'n cynnwys undebau llafur, cynrychiolwyr cyflogwyr a'r llywodraeth.

**Dywedodd yr Athro Emeritws Ed Heery wrth y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol** fod yna dystiolaeth sy'n cefnogi deddfu ar bartneriaeth gymdeithasol a gwaith teg. Cyfeiriodd at ymchwil ar drefniadau partneriaethau cymdeithasol yn y GIG yng Nghymru a'r Alban, a ganfu fod y trefniadau hyn yn dylanwadu ar gyfeiriad strategol y GIG yn y gwledydd hyn, gan

gael effaith glir.

**Awgrymodd yr Athro Lydia Hayes** y byddai statws statudol yn dod â thrylwyredd i drefniadau partneriaeth gymdeithasol, a bydd y ddeddfwriaeth honno yn helpu i hyrwyddo'r dyletswyddau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

## 3.2. Materion polisi allweddol a godwyd yn ystod y gwaith craffu

### Dull cyffredinol o ymdrin â'r Bil

Argymhellodd y rhan fwyaf o'r aelodau ar y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol fod y Senedd yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil, gan nodi bod llawer o'r dystiolaeth a gafodd yn cefnogi'r Bil.

Fodd bynnag, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gydnabod yr heriau o ran meintioli a mesur amcanion y Bil, ac roedd hyn yn rhywbeth y clywodd y Pwyllgor dystiolaeth yn ei gylch hefyd. **Dywedodd** y Sefydliad Materion Cymreig y dylai fod ffocws ychwanegol ar berfformiad mewn cymhariaeth ag amcanion fel tâl, amodau gwaith a gwasanaethau cyhoeddus, gan nodi:

> Although there is sound theory and international experience underpinning the Bill, there needs to be a focus on outcomes - with monitoring and evaluation a core part of this.

**Galwodd CBI Cymru am** i naratif gael ei ddatblygu i nodi'r achos dros yr egwyddorion a'r canlyniadau a fwriedir o'r Bil.

Daeth y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i'r casgliad ei fod yn bosibl na fydd nodau'r Bil yn cael eu cyflawni heb i Lywodraeth Cymru weithredu i gyfleu naratif cliriach ynghylch yr achos dros yr angen am ddeddfwriaeth, a mwy o fanylion am y canlyniadau diriaethol y mae'n dymuno eu cyflawni drwy'r Bil.

### Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol

#### Rôl y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol

Roedd nifer o sefydliadau yn cydnabod y rôl a chwaraewyd gan bartneriaeth gymdeithasol yn ystod y pandemig. Dywedodd **Chambers Wales** fod y cyngor partneriaeth gymdeithasol cysgodol a gyflwynwyd yn ystod y pandemig wedi dangos pa mor effeithiol yw cael grŵp brwdfrydig a all gynghori Gweinidogion ar faterion cymhleth o bob ongl o gymdeithas. Fodd bynnag, dywedodd hefyd **mewn tystiolaeth lafar** 'gan fod y pandemig wedi dod i ben, nid yw hynny wedi amlygu

ei hun'.

Croesawodd undebau llafur sy'n gysylltiedig â'r TUC ddatblygiad Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol, a **dywedodd** Undeb Cenedlaethol y Gweithwyr Rheilffordd, Morwrol a Thrafnidiaeth y gallai'r dull sy'n cael ei ddefnyddio ddarparu sylfaen ar gyfer creu fforymau eraill sy'n cynnwys cyflogwyr ac undebau'r sector preifat. Dywedodd **NEU Cymru** fod creu'r Cyngor yn ffordd synhwyrol o sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gallu ymgysylltu â'r gweithlu.

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wedi dweud ei fod am weld ffocws clir i'r CPG, ac wedi argymell y dylai weithio gyda phartneriaid cymdeithasol i ddatblygu cylch gorchwyl â ffocws.

## Y broses enwebu ar gyfer y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol

Clywodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wahanol safbwyntiau hefyd ynglŷn â'r broses enwebu ar gyfer cynrychiolwyr gweithwyr ar y CPG. Mae **Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru** a **BMA Cymru** yn pryderu efallai na fyddant yn cael eu cynnwys ar y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol o dan y trefniadau presennol. Galwodd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru am i'r Bil gael ei ddiwygio i ganiatáu enwebiadau gan unigolion y mae'r Prif Weinidog yn ystyried eu bod yn cynrychioli staff sy'n gweithio o bob categori o gyflogwr y cyfeirir ato yn adran 3 o'r Bil yn ogystal ag oddi wrth TUC Cymru.

Darparodd TUC Cymru **dystiolaeth ysgrifenedig** a oedd yn cynnig sefydlu 'ochr undeb' gydag undebau nad ydynt yn gysylltiedig sy'n penderfynu'n ddemocrataidd ar enwebiadau cynrychiolwyr gweithwyr i'r Cyngor, a datblygu protocolau ar gyfer sut mae cynrychiolwyr gweithwyr yn ymgysylltu â'r mudiad undebau llafur ehangach.

Argymhellodd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i TUC Cymru enwebu cyfran benodol o aelodau undeb nad ydynt yn gysylltiedig i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol fel rhan o'r broses enwebu.

## Amrywiaeth y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol

Dywedodd **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru** ei fod am i Lywodraeth Cymru nodi'n glir sut y bydd yn sicrhau amrywiaeth ymhlith aelodau'r Cyngor. Galwodd **Chwarae Teg** am ddiwygio'r Bil fel ei fod yn ei gwneud yn ofynnol i gael cydbwysedd rhwng y rhywiau ac amrywiaeth o ran y Cyngor, ac i Lywodraeth Cymru roi gofyniad ar gynrychiolwyr y Cyngor i ddangos sut y maent wedi

ymrwymo i weithredu ar degwch rhwng y rhywiau. Nododd y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol mai'r bwriad yw i'r gwaith ar amrywiaeth y CPG gael ei wneud gyda phartneriaid cymdeithasol drwy weithdrefnau'r CPG yn hytrach na thrwy'r Bil ei hun.

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wedi argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau cynnar gyda phartneriaid cymdeithasol i sicrhau bod y prosesau ar gyfer gwneud penodiadau i'r CPG yn cynnwys gofynion uchelgeisiol ar gyfer amrywiaeth o ran cynrychiolaeth.

## Dyletswydd partneriaeth gymdeithasol

### Datrys anghydfodau

Lle ceir pryderon na fydd corff cyhoeddus o bosibl yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol, dywed Llywodraeth Cymru y bydd aelodau'r CPG yn gallu codi'r materion hyn â hwy fel y gall y CPG roi cyngor. Roedd Undebau Llafur **yn cefnogi dull sy'n canolbwyntio ar gyfryngu** i fynd i'r afael â materion, a dywedodd Undeb y GMB ei fod yn meddwl y byddai'n agored iawn i hynny gan mai datrys gwrthdaro yw'r hyn y maen nhw'n ei wneud, a'u bod yn gweithio orau felly ac y byddai o blaid hynny ar y cyfan. Argymhellodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol fod Llywodraeth Cymru yn rhoi eglurder ynghylch y dull a ffefrir ganddi ar gyfer datrys anghydfodau, a nodi pam nad yw wedi cynnwys mecanwaith cyfryngu ffurfiol yn y Bil.

## Gwaith teg

Mynegodd **yr Athro Felstead** a **Chwarae Teg** ill dau bryderon am **wahaniaethau yn y ffordd y cafodd gwaith teg ei gynnwys yn y Bil drafft o'i gymharu â'r Bil a gyflwynwyd i'r Senedd**. Nid oedd **adrannau 4-6 o'r Bil drafft,** sy'n ymwneud â gwaith teg, wedi'u cynnwys yn y Bil a gyflwynwyd i'r Senedd. **Dywedodd** y Dirprwy Weinidog "the Bill as presented respects and reflects the limits of the current devolution settlement…our approach now better reflects our belief that promoting fair work can support the link between individual and collective well-being".

Dywedodd Dirprwy Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Marie Brousseau-Navarro, **wrth y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol** mai un o'r canfyddiadau mwyaf trawiadol wrth ddadansoddi amcanion llesiant oedd bod cyrff cyhoeddus yn canolbwyntio ar gyflogaeth a thwf economaidd, ond nid ydynt wedi cynnwys amcanion ar 'waith addas'. Nododd:

> The Welsh Government was the only public body that had specific well-being objectives to tackle regional inequalities and promote fair work, so the only one with a specific reference to fair work or decent work, and Cardiff had made references to being a real living wage employer.

**Mewn tystiolaeth lafar**, galwodd yr Athro Lydia Hayes a'r Athro Alan Felstead am **greu Dirprwy Gomisiynydd Gwaith Teg yn swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol**, fel y gwnaeth TUC Cymru yn ei **dystiolaeth ysgrifenedig**. Dywedodd TUC Cymru y byddai hyn yn sicrhau bod y mesurau yn y Bil yn cael eu blaenoriaethu'n ddigonol.

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wedi argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu canllawiau i helpu cyrff cyhoeddus i ymgorffori gwaith teg yn eu hamcanion llesiant, a nodi sut mae'n disgwyl i hyn arwain at fwy o gyrff cyhoeddus yn gwneud hyn. Galwodd hefyd ar Lywodraeth Cymru i adolygu a oes gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ddigon o gyllid i roi'r flaenoriaeth sydd ei hangen ar waith teg.

## Caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol

### Targedau caffael

Mae grwpiau busnes yn awyddus i weld targedau caffael yn cael eu cyflwyno er mwyn manteisio i'r eithaf ar y buddion posibl yn y rhan hon o'r Bil. **Dywedodd** Sefydliad y Cyfarwyddwyr Cymru mai effaith allweddol deddfwriaeth caffael fydd cynyddu canran y caffael sy'n cael ei wario gyda busnesau o Gymru. Galwodd **Chambers Wales** ar Lywodraeth Cymru i osod targedau ar gyfer ei hun a chyrff cyhoeddus i gynyddu'r canran o gyllid caffael a gaiff ei wario gyda busnesau yng Nghymru dros y pum mlynedd nesaf.

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wedi argymell diwygio'r Bil, fel ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod targedau ar gyfer cyfran y caffael sy'n cael ei wario yng Nghymru a'i wario gyda mathau penodol o gyflenwyr megis busnesau bach a chanolig neu fentrau cymdeithasol.

### Gweithredu'r rhan hon o'r Bil

Disgrifiodd nifer o gyrff cyhoeddus yr heriau y byddent yn eu hwynebu wrth weithredu agweddau caffael y Bil. **Dywedodd** Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru fod rheolwyr caffael fel 'dannedd iâr', gyda heriau recriwtio a allai arwain at anghysondeb ar draws cyrff cyhoeddus megis gwasanaethau tân ac achub. Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ei hasesiad o'r heriau hyn:

> In these corporate support-type functions, these are the functions that bore the brunt during austerity, in terms of cuts. There's a real issue with capacity there. But they need to understand what it is that they'll be required to do in the future.

**Tynnodd** arbenigwyr caffael o Gymdeithas Contractwyr Peirianneg Sifil Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sylw at y gwahanol lefelau o berfformiad ac arbenigedd ar draws gwahanol gyrff cyhoeddus, a gwnaethant godi'r angen am gymorth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i helpu i fynd i'r afael â hyn.

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wedi argymell bod Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu sicrhau bod gan y gweithlu caffael y capasiti a'r gallu i weithredu'r dyletswyddau caffael a rheoli contractau newydd yn y Bil. Argymhellodd hefyd fod y llywodraeth yn cefnogi cyrff cyhoeddus i gydweithio'n effeithiol i feithrin capasiti, gallu ac arbenigedd.

# 4. Goblygiadau ariannol y Bil a materion allweddol a godwyd yn ystod y gwaith craffu

Bydd gan y Bil gostau ychwanegol amcangyfrifedig o tua £30 miliwn dros gyfnod o bum mlynedd, a fydd yn cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Bil, a'r sector preifat.

## 4.1. Goblygiadau ariannol y Bil

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sydd wedi'i gynnwys yn yr Memorandwm Esboniadol i'r Bil yn crynhoi ei gostau a'i manteision dros gyfnod o bum mlynedd. Bydd costau yn deillio o'r Bil i Lywodraeth Cymru, sefydliadau'r sector cyhoeddus, a'r sector preifat.

Mae'r **costau amcangyfrifedig i Lywodraeth Cymru yn** cynnwys costau trosiannol o £242,000 ar gyfer datblygu canllawiau statudol a datblygu presenoldeb digidol ar gyfer y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol. Mae hefyd yn cynnwys costau rheolaidd o ychydig dros £2.9 miliwn ar gyfer staffio, llunio adroddiadau, a gweinyddu'r dyletswyddau o fewn y Bil.

Mae **costau amcangyfrifedig Llywodraeth Cymru i'r sector cyhoeddus** yn cynnwys costau trosiannol o £131,000 i staff sicrhau eu bod yn ymwybodol o ofynion y Bil, a mynychu hyfforddiant. Mae'r rhan fwyaf o'r costau rheolaidd o £20.7 miliwn yn ymwneud â'r dyletswydd rheoli contractau adeiladu, gyda chostau eraill sy'n deillio o fynychu cyfarfodydd partneriaeth gymdeithasol, a bodloni gofynion i ddatblygu ac adrodd ar gaffael.

Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y bydd **y sector preifat** yn ysgwyddo costau rheolaidd o ychydig o dan £6.5 miliwn dros y cyfnod hwn, yn ymwneud â'r ddyletswydd rheoli contractau adeiladu.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn sôn am asesiad Llywodraeth Cymru o'r manteision sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth fel y rheini o arferion cyflogaeth mwy moesegol mewn cadwyni cyflenwi, canlyniadau gwell o weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, a chan y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn darparu arweinyddiaeth ledled Cymru i gynhyrchu gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol cryfach a mwy cyson. Nid yw'n cynnwys unrhyw ffigurau gan fod Llywodraeth Cymru yn ystyried nad yw'n bosibl mesur y rhain.

**Tabl 1: Costau a manteision y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) rhwng 2023-24 a 2027-28**

| Disgrifiad o'r gost | Cost (£000) |
|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | |
| Costau trosiannol | 242 |
| Costau rheolaidd | 2,910 |
| Cyfanswm costau | 3,152 |
| **Sector cyhoeddus** | |
| Costau trosiannol | 131 |
| Costau rheolaidd | 20,651 |
| Cyfanswm costau | 20,782 |
| **Sector preifat** | |
| Costau rheolaidd | 6,466 |
| **Cyfanswm costau'r Bil** | 30,399 |

Ffynhonnell: **Asesiad Effaith Rheoleiddiol** y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), Mehefin 2022

## 4.2. Materion ariannol a godwyd yn ystod y gwaith craffu

### Costau rheoli contractau adeiladu

Mae'r **Asesiad Effaith Rheoleiddiol** yn nodi y "byddai cynnydd mewn caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn gofyn am ddull gweithredu mwy cadarn, â mwy o adnoddau ar gyfer rheoli contractau". O ganlyniad, **mae cost fawr i'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yn deillio o'r Bil drwy gryfhau rheoli contractau ym maes adeiladu.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud rhagdybiaethau am y rhaniad rhwng y ddau sector, **gan ddweud y canlynol**:

> Oherwydd mai ar y sector cyhoeddus y bydd y dyletswyddau caffael yn cael eu rhoi, rydym yn tybio y byddai'r sector cyhoeddus yn ysgwyddo 75% o'r gost uwch hon am adnoddau rheoli contractau, ac y byddai'r sector preifat yn ysgwyddo 25%. Mae hyn yn cyfateb i gostau blynyddol o £3,879,825 i'r sector cyhoeddus a £1,293,275 i'r sector preifat.

O ran y costau i fusnesau'r sector preifat, mewn **tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid** dywedodd y Dirprwy Weinidog mai un o'r ystyriaethau allweddol i Lywodraeth Cymru fydd mabwysiadu dull cymesur at y dyletswyddau fel bod modd eu cymhwyso'n briodol drwy'r gadwyn gyflenwi.

**Dywedodd** y Dirprwy Weinidog hefyd y bydd llawer o'r cyrff cyhoeddus a gwmpesir gan y Bil eisoes yn gwneud llawer o'r camau sy'n gysylltiedig â'r Bil, felly ar hyn o bryd ni fydd angen cymorth ariannol ychwanegol.

## Costau i sefydliadau'r trydydd sector

Soniodd nifer o dystion wrth y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol am eu **pryderon bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn tanamcangyfrif effaith ariannol y Bil ar sefydliadau yn y sector cyhoeddus**. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru **o'r farn bod** llawer o'r costau i Lywodraeth Cymru wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ond nid costau i sefydliadau eraill. **Dywedodd** Dirprwy Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, yn groes i'r hyn y mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ei ddweud, bydd y Bil yn effeithio ar waith swyddfa'r Comisiynydd a bydd ganddo oblygiadau ariannol iddynt.

## Costau a manteision amser cyfleuster ychwanegol i undebau llafur

Clywodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol gan undebau llafur y **bydd angen adnoddau ychwanegol arnynt, a phartneriaid cymdeithasol eraill, i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol**. Nid yw costau a manteision posibl hyn yn cael eu hadlewyrchu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae **tystiolaeth ysgrifenedig** TUC Cymru yn nodi:

> Implementation will require resource so that all social partners – including trades unions - are able to realise this duty. However, it is not yet clear what those resources would look like as there is a significant knowledge gap about what it would look like to effectively engage across the new structures. We have existing trade union education structures and those structures will have to be mobilised to support implementation, but much of the detail around how the application of the duty will work within workplaces needs to be determined by social partners at a local level.

**Dywedodd y Dirprwy Weinidog** wrth y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol fod Llywodraeth Cymru'n dechrau edrych ar y maes hwn, i weld a fydd angen amser cyfleuster ychwanegol, ac a fydd unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o hyn.

## Posibilrwydd o gostau ychwanegol yn sgil y ffaith bod mwy o gyrff yn ddarostyngedig i’r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol

Yn ddiweddar, **cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar p’un a ddylid cynnwys wyth corff cyhoeddus ychwanegol o fewn dyletswydd llesiant *Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015***. Os gwneir hynny, bydd y cyrff hyn hefyd yn ddarostyngedig i’r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn y Bil hwn, a’r ddyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol os nad oeddent eisoes.

Mewn tystiolaeth i’r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, **dywedodd** y Dirprwy Weinidog ei bod hi’n rhagweld y byddai costau cyffredinol i gyrff cyhoeddus yn cynyddu os bydd mwy o gyrff yn ddarostyngedig i’r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol, ac y byddai’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei ddiweddaru yn unol â hynny.